75. Corsydd Teifi
Cilgerran, Sir Benfro

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 198 yr A.O. Aberteifi a Cheinewydd; Map Explorer OL35 yr A.O. Gogledd Sir Benfro; Prif fynedfa: SN187430; Canolfan y safle: SN184455
Statws	Rhan o SoDdGA Afon Teifi ac AGA, a rhan o GNL Coedmor.
Daliadaeth	Yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth.
Maint	107.1 he (264.6 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	Ym mhen draw pentref Cilgerran, wrth deithio tuag at Aberteifi, cymerwch y tro i'r dde cyn y bont a dilynwch y trac sengl hir i'r maes parcio a'r ganolfan ymwelwyr. Ceir mynediad ar hyd yr afon o Aberteifi hefyd.
Cludiant cyhoeddus	Mae bysiau 430 a 390 o Aberteifi yn stopio ym mhentref Cilgerran.
Cyfleusterau Ychwanegol	Gwelir Canolfan Fywyd Gwyllt Cymru ar y safle yma, yn cynnwys siop dymhorol, caffi a desg wybodaeth. Ceir sawl cuddfan adar, canolfan teithiau canŵio a llety i wirfoddolwyr.

Disgrifiad: Mae'r warchodfa wedi'i lleoli ar lawr sianel cyn-rewlifol llydan a adawyd gan lwybr yr hen afon Teifi ac sy'n gartref bellach i afon Piliau. Mae'r afon hon yn troelli'n gul, ond yn dwyllodrus o ddyfn, drwy'r corsydd. Ceir yma amrywiaeth o gynefinoedd, o borfa agored a gwrychoedd coediog trwchus i ffen o Werni a Helyg, cors o ddŵr croyw gyda phyllau agored, corslwyni a llaidgloddiau llanwol.

Mae yma lawer o lifogydd yn ystod y gaeaf, a bydd yr ardal yn denu nifer fawr o adar gwyllt, y Gorhwyaden, y Chwiwell a'r Hwydan Wyllt yn arbennig. Ceir nifer sylweddol o Regen y Dŵr ar y safle yn ystod y gaeaf hefyd, ac ymhlith yr ymwelwyr rheolaidd eraill yn ystod y gaeaf mae'r Gïach Gyffredin, y Gylfinir a'r Gornchwiglen. Mae Hebogiaid Tramor yn hela uwch ben y corsydd hefyd. Ymhlith yr adar sy'n magu yma mae Telor y Cyrs, Telor yr Hesg a Thelor Cetti a'r Llwydfron, Hwyaden yr Eithin a'r Iâr Ddŵr. Mae Crehyrod yn magu gerllaw hefyd.

Gwelir Dyfrgwn a Mincod yn y corsydd, mae'r Chwistlod Dŵr yn niferus yma ac mae Ceirw Coch a Sica yn bresennol yma. Ymhlith y rhywogaethau o bysgod a welir yma mae Lampreiod, Crethyll, Hyrddiaid, Llysywod, Sewin ac Eogiaid. Ceir nifer o lyffantod a brogaod yma ac mae Nadroedd Gwair a Gwiberod yn bresennol yn y warchodfa.

Ymhlith y casgliad cyfoethog o weision y neidr a welir yma mae'r Ymerawdwr, yr Heliwr Llydan, y Pedler Deheuol a'r Fursen Gynffon Las Brin.

Mae Ych yr Afon wedi arfer pori'r safle drwy gydol y flwyddyn.

Teifi Marshes 1 11/5/06, 10:08 am



Nodau Rheoli: Cynnal yr amrywiaeth eang o gynefinoedd mewn cyflwr ffafriol, a'u gwella drwy sicrhau rheolaeth briodol ar lefelau'r dŵr a phori i warchod y nodweddion cynefin y mae'r rhywogaethau o ddiddordeb cadwriaethol arbennig eu hangen.

Amser da i ymweld	
Mawrth - Awst	Blodau gwyllt
Mai - Gorffennaf	Adar yn magu
Mehefin - Hydref	Glöynnod byw, gweision y neidr, pryfed
Hydref – Mawrth	Adar yn gaeafu